| | |
|---|---|
| ***Cyngor Sir Penfro***<br>***Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017–2033***<br>***ARHOLIAD***<br>**Pembrokeshire County Council**<br>**Revised Local Development Plan 2017–2033**<br>**EXAMINATION** | *Arolygwyr / Inspectors:*<br>**Ian Stevens BA (Hons) MCD MRTPI**<br>**Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI**<br><br>*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*<br>**Deborah Williamson** |

***ff***/**t: 01437 775545** e: **programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

# Cyfarfod archwiliadol: Agenda

**Dyddiad ac amser:** 10.00 Dydd Mawrth 16 Mehefin 2026

**Lleoliad:** Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP

***Pwrpas y cyfarfod:*** *I drafod cynnwys, tystiolaeth ac effeithiau posibl Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2 Sir Penfro ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac afonol. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Gynlluniau Lleihau Maetholion Dalgyfylchiadau; a oes angen rhagor o dystiolaeth a ph'un a ellir ei darparu o fewn amserlen resymol; ac i lywio argymhellion yr Arolygwyr ynghylch camau nesaf yr archwiliad.*

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfranogwyr a wahoddwyd:** | Harriet Lavender | Cyngor Sir Penfro |
| | Martina Dunne | |
| | Tom Nettleship | |
| | Bob Smith | |
| | Mark Newey | Llywodraeth Cymru |
| | Mary Lewis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Ruth Jenkins | |

## Eitemau a chwestiynau i'w trafod

1. **Cyflwyniadau**

2. **Diweddariad ar Gynlluniau Lleihau Maetholion Dalgyfylchiadau**

3. **Mater 1: O ystyried i ba raddau y mae dyraniadau'r Cynllun yn cael eu heffeithio, a yw'n ymarferol i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu lliniaru dangosol yn ôl-weithredol?**

    - Beth yw'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Lleihau Maetholion Dalgyfylchiad (CLlMD) ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) morol ac afonol?
    - Dros ba gyfnod bydd y CLlMD yn weithredol, a beth yw'r rhagdybiaethau twf y bydd yn seiliedig arnynt?
    - Sut y caiff y CLlMD ei integreiddio â chynlluniau cyflawni a rheoli eraill? A yw'n rhagofyniad ar gyfer y cynllun gweithredu lliniaru dangosol y ceisir amdano?

- Os bydd oedi wrth gynhyrchu'r CLlMD, pa dystiolaeth sy'n nodi'r mesurau (camau gweithredol) y gellid dibynnu arnynt yn y cyfamser i wella ac adfer yr ACA?

4. **Mater 2: A yw'r dyraniadau o fewn dalgylchoedd ACA sy'n sensitive i faetholion – ac felly'r Cynllun yn ei gyfanrwydd – yn gyflawnadwy?**

   - A yw niwtraliaeth maetholion yn ateb wrth gefn hyfyw, os oes ei angen cyn sefydlu dull integredig yn y Sir?
   - Pryd y gallai'r 'cyfraniadau ariannol priodol' y cyfeirir atynt yn Natganiad Safbwynt Llywodraeth Cymru, y gallai fod eu hangen i wella ac adfer ACA, ddod yn hysbys?
   - A oes digon o sicrwydd y gellid sicrhau'r cynfraniadau ariannol hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol (Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 123) a'r profion polisi (Cylchlythyr Rhwymedigaethau Cynllunio 13/97)? Os nad oes, a allai'r rhain gael eu newid, ac a oes amserlen ar gyfer hyn?
   - Os oes tystiolaeth ansicr o oblygiadau nail ai dull niwtraliaeth maetholion neu ddull integredig ar gyflawnadwyedd datblygu, pa bwysau ddylid ei roi ar Ddatganiad Safbwynt Llywodraeth Cymru, a'i alwad am ystyriaeth hyblyg ac addasol, wrth inni benderfynu ar gadarnwch y CDLl?

5. **Mater 3: A yw'r mesurau lliniaru yn ddigon 'sicr' fel y gellir dibynnu arnynt yn yr Asesiad Priodol?**

   - A ellir ystyried bod y mesurau y bydd y CLlMD yn eu cynnwys (gyda'r bwriad o sicrhau statws ffafriol i'r ACA dros amser) yn 'sicr' o safbwynt Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) os ydynt yn anhysbys neu'n aneglur? Beth y gellir dibynnu arno cyn y CLlMD?
   - A yw polisi CDLl sy'n cyfeirio at Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn y dyfodol a/neu CLlMD yn y dyfodol yn fath o liniaru a fyddai'n caniatau i'r Cyngor ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle? A fyddai angen CCA a/neu CLlMD drafft neu amlinellol – ac os felly, ar ba lefel o fanylder?
   - Heb ragfarnu'r profion cadarnwch, a yw absenoldeb atebion amgen yn ystyriaeth gyfreithlon ar gyfer yr HRA, heb symud ymlaen at y camau diddymu?
   - Pa bwysau ddylai Datganiad Safbwynt Llywodraeth Cymru (a'i alwad am ystyriaeth hyblyg ac addasol) ei gario mewn perthynas â'n penderfyniad ar gydymffurfiaeth y CDLl ag adrannau 62 a 63 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a'r rheoliadau o dan adran 77, o dan adran 64(5)(a)?

6. **Materion eraill**

   - Er gwaethaf yr uchod, a oes lle i gasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael eu llywio gan ganfyddiadau Asesiad Cyflwr CNC ar ACA Morol Sir Benfro (Mehefin 2025) ynghylch maint y nitrogen anorganig hydawdd sy'n deillio o ollyngiadau carthffosiaeth fynhonnell bwynt?
   - Yn gysylltiedig a hyn, a ystyriwyd a fyddai lefel y twf a gynlluniwyd cyn sefydlu dull integredig yn tanseilio cyflawni'r amcanion cadwraeth (gan ddefnyddio'r hyn a elwir yn ddull seiliedig ar drothwyon)?

- A oes angen diwygiadau pellach i’r polisi GN 47 (SP 12A) arfaethedig?

**7. Camau nesaf**